

Cofnodion Cyngor Tref Y Bala: Medi 5ed, 2013

Presennol: Y Maer, Dorothe Evans, Ivora Jones (Dirprwy Faer), Eifion Roberts, Sharon Evans, Shan Ranson, Dilwyn Jones, Islwyn Pritchard-Jones, Dilys Evans, Eluned Jones
Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd, Aeron Jones (cyn Glere), Lis Puw (Clerc)
Gwestai: Catrin Jones (Menter a Busnes)

986 Estynnodd y Maer groeso cynnes i bawb a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Alun Price, John C Williams ac Edith Roberts.

987 Rhoddodd Catrin Jones gyflwyniad ar grant i wella'r Henblas i greu Canolfan ar gyfer y gymuned, darparu gofod ar gyfer Asiantaethau i ddarparu cyngor i'r gymuned, a gofod ar gyfer swyddfeydd. Yn barod cafwyd nifer dda o ymrwymadau gan ddefnyddwyr tebygol i gryfhau'r cais am grant Cymunedau Cynaliadwy ac arian cyfatebol gwerth £125,000. Mae Cyngor Gwynedd wedi gohirio'r bwriad gwreiddiol i werthu'r Henblas ac yn awr yn caniatáu i Bartneriaeth Penllyn ddefnyddio'r Henblas ar les. Collwyd lawer o wasanaethau o Benllyn dros y blynyddoedd a dyma gyfle i ennill y rhain yn ôl yn hytrach na bod pobol yr ardal yn gorfod teithio i gael gwasanaeth a chyngor. Bydd hefyd ystafelloedd cyfarfod a swyddfa ar gael i'w rhentu am dymor byr neu hir.

Mae Astudiaeth Dichonolrwydd wedi ei wneud a chymeradwywyd y Cynllun Busnes gan ddarparwyr y grantiau, ond bydd dyfodol yr Henblas a llwyddiant y prosiect yn ddibynnol bellach ar y gefnogaeth a'r defnydd gan bobl Penllyn. Bydd y Swyddog Marchnata yn cychwyn ar y gwaith o hyrwyddo yn fuan.

Mae Syrffwr wedi ei benodi i uwchraddio'r llawr isaf o'r adeilad ar hyn o bryd, gan gadw mewn golwg datblygiadau ar y lloeriau eraill yn y dyfodol. Bydd yn defnyddio cwmnïau lleol i wneud y gwaith a gobeithir y bydd hwn wedi ei gwblhau erbyn y Gwanwyn.

Diolchwyd i Catrin Jones am ei chyflwyniad a'i gwaith gyda'r prosiect.

Cafwyd awgrym gan Gyngor Tref Y Bala y gellid darparu blychau post gwahanol ar gyfer y gwahanol ddefnyddwyr. Ategwyd y bydd Cyngor ar Bopeth (CAB) yn mynychu'r Bala bob pythefnos. Anogwyd trigolion i wneud defnydd o'r adnodd hwn er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth.

988 Datganwyd buddiant gan y Maer ym mater 995ii.

989 Derbyniwyd Cofnodion 4/7/13 fel rhai cywir.

990?Materion yn codi o'r Cofnodion:

i. Cofeb y Cymry a frwydrodd yn Fflandrys - trafodir y cais am arian yn nes at ddiwedd y flwyddyn ariannol, ond deellir hefyd bod y Lleng Prydeinig yn trefnu codi arian at yr apêl.

ii. Cais am gymorth gan Glwb Hoci Penllyn i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. Gweithredu: Sharon Evans i gael manylion pellach.

iii. Pryder am brydlondeb a diffygion gyda gwasanaeth bws Arriva : gan na chafwyd atebgan Arriva i ohebiaeth oddi wrth y Cyngor, cytunwyd i gysylltu gyda Dafydd Elis Thomas, yr Aelod Cynulliad, i fynegi pryderon y Cyngor. Rhoddwyd gwybod i'r

Cynghorwyr am gyfarfod ymgynghorol am wasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus TRACC yn Nolgellau pnawn 9/9/13. Gweithredu: Y Clerc

iv. Cytunwyd i wahodd y First Responders i roi cyflwyniad yng nghyfarfod mis Hydref. Gweithredu: Y Clerc

v. Diolchwyd i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan am gynrychioli'r Cyngor a chyflwyno plac y dref yng nghyngerdd Côt Toronto. Cytunodd y Maer i ymchwilio i brisiau plac y dref ac i drafod yr archeb y mis nesaf. Gweithredu: Y Maer

vi. Cyfrif Ras Llyn Tegid: cytunwyd i'w gau gan nad yw wedi ei ddefnyddio ers 2004 ac i drosglwyddo'r balans (£1,900) i gyfrif y Cyngor gyda'r bwriad i'w glustnodi ar gyfer hyrwyddo'r dref. Gweithredu: Y Clerc a Dilys Evans

991 Materion yr Heddlu:

Cytunwyd i wahodd yr Arolygwr Mark Armstrong a PCSO i'r cyfarfod nesaf i drafod dyfodol plismona yn y dref. Mae pryder hefyd am y troseddau torri ffenestri ar y Stryd Fawr y misoedd diwethaf. Gweithredu: Y Clerc

992 Materion y Cynghorydd Sir:

i. Adroddodd Dilwyn Morgan ei fod wedi sefydlu mai'r Cyngor Sir sydd yn gyfrifol am adfer adnoddau'r cae pêl droed yng Nghysgod y Coleg, ac y bydd yn dilyn y mater.

ii. Mae'r gwaith o dacluso o gwmpas y Ganolfan Hamdden a maes parcio'r Plase wedi ei wneud.

iii. Bydd yn parhau gyda'r mater o fainc ym Mlaenddol er cof am Joan Batten a'r plac arno.

iv. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu cyn hir ar ddyfodol Neuadd Buddug, ond mae'r Cynghorydd wedi gallu ennill peth amser nes bod y gwaith ar yr ysgol gydol oes wedi ei gwblhau.

v. Bydd cynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, cymdeithasau ac asiantaethau yn cerdded o un pen i'r Stryd Fawr i'r llall i ystyried delwedd y dref gyda'r bwriad o wneud cais am grant; bydd gwahoddiad i'r Cyngor Trefgymryd rhan yn y daith.

vi. Materion a godwyd gan y Cynghorwyr Tref i Dilwyn Morgan ymchwilio iddynt: perygl y cadwynau ar lawr wrth fynedfa Meddygfa'r Hafan; yr angen am darmac rhwng maes parcio'r Clwb Rygbi a'r llwybr. Gweithredu: Dilwyn Morgan

Diolchodd y Maer yn gynnes iawn i'r Cyng. Dilwyn Morgan am ei waith.

993 Rhestr asedau:

Cytunwyd i'r Cynghorwyr wirio'r asedau ar y rhestr a chofnodi wrth wneud hynny.

994 Is bwyllgorau:

Penderfynwyd ar y rhain yn y Cyfarfod Blynyddol, ond cytunwyd i'w gwirio yn y cyfarfod nesaf i sicrhau eu bod yn gyfredol. Mynegodd Shan Ranson ei dymuniad i sefyll lawr o gynrychioli'r Cyngor ar fwrdd llywodraethol Ysgol Bro Tegid. Diolchwyd iddi am ei gwasanaeth a'i harweiniad ar hyd yr amser. Cytunodd Eifion Roberts i'w enw fynd ymlaen. Gweithredu: Clerc i ysgrifennu at Bennaeth Ysgol Bro Tegid.

Gan fod peth dryswch am gynrychiolaeth ar wahanol bwyllgorau Ysgol y Berwyn, cytunodd Aeron Jones i ymchwilio ymhellach. Gweithredu: Aeron Jones

995 Cynllunio:

- i. Cymeradwywyd NP5/53/36A: 81-83 Y Stryd Fawr i gwerthu bwyd iiw fwyta allan.
- ii. Cymeradwywyd NP5/53/168A: Meirion House, 28 Heol Tegid i newid defnydd ac edrychiad.
- iii. Cymeradwywyd NP5/53/100A: 63 Heol y Domen i adeiladu ystafell haul.
- iv. Roedd dyddiad ymateb i gais am ymestyn oriau trwydded gwerthu bwyd Y Cwrt wedi mynd heibio.
- v. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd a roddwyd i NP5/53/170D sef mast telethrebu ar yr ystad ddiwydiannol.
- vi. Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd a roddwyd i NP5/53/411A 83 Heol Tegid, sef strwythur gardd a lle dan orchudd.

996 Materion Cyllid:

- i. Cytunwyd i dalu biliau Vodaphone a Chanolfan Bro Tegid.
- ii. Cytunwyd i dalu cyflog Awst a Gorffennaf y Clerc.
- iii. Derbyniwyd ail daliad y Praesept.
- iv. Cytunwyd i dalu am ail gyfeirio'r post i gartref y Clerc pan ddaw'r ail gyfeirio presennol i ben ar 25/10/23
- v. Cytunwyd mai unrhyw 3 o 4 a awdurdodwyd a ddylai arwyddo sieciau. Mae hawl gan y Maer a'r Dirprwy Faer i arwyddo. Bydd angen mandad ar gyfer Dilys Evans a Lis Puw. Gweithredu: Clerc

997 Gohebiaeth:

- i. Ffurflen Hacker Young. Awdurdodwyd y Maer a'r cyn-Glerc i'w harwyddo ar ôl cael sicrhad gan Hill & Roberts fod y Cyngor wedi cofrestru gyda PAYE a bod y taliadau angenrheidiol wedi eu gwneud. Cytunwyd i arddangos y ffurflen 'Archwilio'r Cyfrifon' ar yr hysbysfwrdd ar ganol y Stryd Fawr am 14 niwrnod. Gweithredu: Aeron Jones
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am gau'r ffordd ar gyfer y Treiathlon 8/9/13.
- iii. Derbyniwyd copi o Gytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a Phartneriaeth Penllyn.
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am faterion ar agenda cyfarfod nesaf Partneriaeth Penllyn.
- v. Cytunwyd y byddai'n fuddiol pe byddai pob Cyngor yn gwneud cais i Gist Gwynedd am grant i greu gwefan ond ein bod yn cydweithio i greu un gwefani Benllyn.
- vi. Derbyniwyd derbynneb gan Un Llais Cymru er mwyn i Islwyn Pritchard Jones gynrychioli'r Cyngor yn y Gynhadledd Flynyddol.
- vii. Derbyniwyd gwybodaeth am ymddeoliad Mr I G Thomas, Peiriannydd Meirionnydd, a rhestr o wasanaethau a gynigir gan yr Adran Briffyrdd.
- viii. Nodwyd gwybodaeth am ddyddiadau Cynllun Datblygu Môn a Gwynedd.
- ix. Cytunwyd i ymuno gyda Chynghrair Cymunedau Cymraeg. Gweithredu: Clerc
- x. Derbyniwyd data am waith Gan Bwyll ar Ffordd Ffrydan a Ffordd A. Cytunwyd i fanteisio ar ymweliad Dylan Wynn Jones a Iolo Tegid i Lanuwchllyn ddiwedd y mis a gofyn iddynt ystyried hefyd y problemau goryrru yn Y Bala, gan wahodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i ymuno gyda chynrychiolwyr i Gyngor Tref Y Bala (Eifion Roberts ac Islwyn Pritchard Jones ac eraill). Gweithredu: Clerc

998 Materion brys:

- i. Cytunwyd i gais Cymdeithas Dwristiaeth Y Bala a Phenllyn i osod rhestr llety (aelodau sydd wedi cofrestru gyda'r Gymdeithas) ar yr hysbysfwrdd newydd. Gweithredu: Alun Price
 - ii. Cytunwyd i ystyried y cais am faner groeso i weithgareddau yn Y Bala yng nghyfarfod y mis nesaf, gan holi Alun Price am fanylion pa fath o arwydd sydd dan sylw, a pha liw a.y.b.
 - iii. Diolchwyd i swyddogion Capel Tegid am y gwaith o lanhau cofeb Thomas Charles. Gweithredu: Clerc
 - iv. Llongyfarchwyd Côr Merched Y Bala a'r arweinydd Nia Morgan ar eu llwyddiant yn ennill y wobr Gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych. Gweithredu: Clerc
 - v. Cytunwyd i ofyn i'r contractwr docio Tomen Y Bala. Gweithredu: Clerc
 - vi. Mae'r pryderon yn parhau am y broses o osod tai a chytunwyd i wahodd Rhys Jones o Gartrefi Cymunedol Gwynedd a Noella Jones o Gymdeithas Tai Clwyd i egluro'r broses yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r Cyngor. Gweithredu: Clerc
 - vii. Cynrychiolwyd y Cyngor yn agoriad swyddogol Awel y Coleg gan Y Maer, y Dirprwy Faer a Dilwyn Jones.
 - viii. Mae problem yn bodoli ar hyn o bryd gydag e-bost y Cyngor. Cytunwyd i holi Huw Antur a sefydlodd yr e-bost i gychwyn, neu i greu e-bost newydd. Gweithredu: Aeron Jones
 - ix. Diolchwyd yn gynnes iawn i Aeron Jones am ei wasanaeth fel Clerc yn ystod y misoedd diwethaf ac am ei barodrwydd i fod o gymorth yn y dyfodol.
- Amser gorffen: 9.40pm

ARWYDDWYD.....
DYDDIAD.....